15.07.21

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Ar ran y Llywodraethwyr, hoffwn ddiolch i bob un ohonoch am eich cefnogaeth barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae hi wedi bod yn gyfnod o bryder ac ansicrwydd ac mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd i bob un ohonom. Mae'r gwaith a gyflawnwyd gan holl staff yr ysgol i sefydlu addysgu ar-lein ac addasu eu ffordd o gefnogi ac ymgysylltu gyda'r disgyblion wedi bod yn syfrdanol. Mawr yw ein diolch iddyn nhw ac i'r Pennaeth am barhau i roi blaenoriaeth i les ac addysg ein plant.

Byddai neb wedi gallu rhagweld y byddai Mrs Wakeham wedi treulio ei swydd gyntaf fel Pennaeth yn wynebu pandemig byd eang. Hoffwn ddiolch yn benodol iddi hi am ymdrin â'r sefyllfa gan gadw ei phen a dangos arweiniad cadarn a synhwyrol. Mae Mrs Wakeham wedi gorfod pwyso a mesur yr hyn sy'n bwysig gan flaenoriaethu lles y disgyblion a'r staff, ac yn aml heb lawer o gyfarwyddyd, os o gwbl, gan asiantaethau allanol. Gwerthfawrogwn y diweddariadau a chyswllt cyson gyda rhieni. Mae cefnogaeth aelodau'r Corff Llywodraethol hefyd wedi bod yn werthfawr dros ben yn ystod y cyfnod hwn ac hoffwn ddiolch i bob aelod am yr amser maen nhw'n ei roi er budd Ysgol Bryn-y-Môr.

Diolch i chi eto am eich cyfraniad hollbwysig fel rhieni a phob lwc i flwyddyn 6!

Gan ddymuno haf hapus ac iach i chi gyd,

Saran Thomas

Cadeirydd y Llywodraethwyr

*Dear Parents/ Carers,*

*On behalf of the Governors I would like to thank you all for your continued support over the past year.*

*It's been a time of anxiety and uncertainty and this past year has been difficult for all of us. The work undertaken by all school staff to set up online teaching and adapt their way of supporting and engaging with pupils has been remarkable. We are so grateful to them and the Headteacher for continuing to prioritise the welfare and education of our children.*

*No one could have predicted that Mrs Wakeham would have spent her first post as Head faced with a global pandemic. I would especially like to thank her for handling the situation calmly, showing*

*sound and sensible leadership. Mrs Wakeham has had to evaluate what is important whilst prioritising the welfare of pupils and staff, often with little or no guidance from external agencies. Regluar updates and contact with parents have also been appreciated. The support of the Governing Body has been invaluable during this period and I would like to thank all members for the time they give for the sake of Ysgol Bryn-y-Mor.*

*Thank you again for your vital contribution as parents and good luck blwyddyn 6!*

*Wishing you all a happy and healthy summer,*

*Saran Thomas*

*Chair of Governors*

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**